# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **FFRAMWAITH CYNLLUNIO GIG CYMRU 2026-2029** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Brent Shurn**<br><br>**Cynllunio'r GIG** |
| **Adran:** | **Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-Swyddog Cyfrifol (enw):** | **Samia Edmonds**<br><br>**Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol** |
| **Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol:** | **Jeremy Miles**<br><br>**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Cychwyn:** | **Rhagfyr 2025** |

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN YSTYRIED EU CYMRYD A PHAM?

Mae'r asesiad effaith hwn yn ceisio dangos sut y gall Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a gyhoeddwyd yn 2025 ar gyfer y cyfnod cynllunio 2026-2029 gyfrannu at lesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Cymru; a sut y gallai effeithio ar Gymru a'r bobl sy'n byw yma, yn gadarnhaol neu'n negyddol.

**Cyflwyniad**

Cyhoeddir Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2026-2029 (y fframwaith cynllunio) i ddarparu 'Cyfarwyddiadau' i Fyrddau Iechyd Lleol y GIG ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru gan Jeremy Miles, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar yr hyn y dylent ganolbwyntio arno yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs). Mae IMTPs yn ofynion statudol. Mae'r fframwaith cynllunio yn darparu'r cyd-destun a'r dirwedd amgylcheddol ar gyfer datblygu cynlluniau'r GIG.

Mae'r gofyniad i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn deillio o adran 175 o Ddeddf 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae adran 175(1) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd sicrhau bod eu gwariant o'r cyllid a roddir iddynt yn mantoli'r gyllideb dros gyfnod cyfrifo o dair blynedd, yn amodol ar rywfaint o hyblygrwydd a bennir gan Weinidogion Cymru.

Yn unol ag adran ddiwygiedig 175(2), mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud y canlynol:

(a) paratoi cynllun sy'n nodi ei strategaeth ar gyfer sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan is-adran (1) tra'n gwella—

(i) iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdanynt, a

(ii) darpariaeth gofal iechyd i bobl o'r fath

(b) gwneud pethau eraill sy'n ofynnol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd honno.

Er mai dim ond i Fyrddau Iechyd y mae adran 175 yn berthnasol, gan ddefnyddio pwerau i gyfarwyddo ymddiriedolaethau'r GIG a nodir yn adran 19(1) o Ddeddf 2006, mae Gweinidogion Cymru i bob pwrpas wedi gosod yr un rhwymedigaethau adrodd ar ymddiriedolaethau'r GIG.

Sefydliadau cenedlaethol ac Awdurdodau Iechyd Arbennig: nid yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Iechyd Digidol Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i gwblhau IMTP ond, ynghyd â sefydliadau cenedlaethol eraill (gan gynnwys Partneriaeth Cydwasnaethau GIG Cymru), maent yn gwneud hynny drwy fabwysiadu'r fframwaith fel modd o gyfarwyddo eu cynllunio.

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (JCC) ym mis Ebrill 2024. Er eu bod wedi cyflwyno cynllun blynyddol sylfaenol y llynedd, dyma'r flwyddyn gyntaf y bydd y JCC yn datblygu ac yn cyflwyno cynllun integredig. Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru

Ailenwyd Gweithrediaeth y GIG, a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2023, yn Perfformiad a Gwella GIG Cymru ar 1 Mehefin 2025. Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cefnogi dadansoddiad cadarn o gynlluniau'r GIG, ar ôl iddynt gael eu cyflwyno. Gan ddefnyddio ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth weithredol o GIG Cymru, mae ei ddadansoddiad yn bwydo i'r broses sicrwydd gyffredinol. Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn allweddol i sicrhau bod sefydliadau'n deall pwysigrwydd y drefn lywodraethu hon a'r ffocws ar sefydlogrwydd a gwelliant.
[Hafan - Perfformiad a Gwella GIG Cymru]

Cyhoeddir y fframwaith cynllunio yn flynyddol, i ddarparu'r cyd-destun a'r 'cyfarwyddiadau' i sefydliadau gyda GIG Cymru o ran yr hyn y dylai eu IMTPs tair blynedd ganolbwyntio arno a'r broses y byddant yn ddarostyngedig iddi. Mae'r fframwaith cynllunio yn nodi disgwyliadau Ysgrifennydd y Cabinet, gyda Phrif Weithredwr GIG Cymru yn ysgrifennu at sefydliadau'r GIG yn nodi'r trefniadau cyflwyno, lle mae'r cynlluniau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys disgrifiad o'r broses asesu gadarn a'r trefniadau cymeradwyo dilynol. Dylid nodi y gallai etholiadau'r Senedd effeithio ar y broses benderfynu, a bydd monitro'r cynlluniau hynny yn cael ei gytuno ar ôl i'r etholiadau ddod i ben.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r GIG wedi parhau i ganolbwyntio ar yr ymateb i'r pandemig COVID-19, yn ogystal â pharhau i gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys ymateb i bobl â chyflyrau iechyd brys, argyfwng a hanfodol. Mae'r heriau ariannol presennol y mae'r system yn eu hwynebu oherwydd COVID, a phwysau chwyddiant yn golygu bod y GIG yn parhau i weithredu mewn amgylchedd heriol, er y buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae angen i'r GIG gynllunio o hyd ond mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cydnabod y sefyllfa honno ac yn rhoi eglurder pellach ynghylch uchelgais lefel uchel Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer y system iechyd a gofal. Mae'n nodi bod yn rhaid optimeiddio adnoddau ac mae'n cynnig blaenoriaethau penodol wedi'u nodi i'r GIG ganolbwyntio ar eu cyflawni.

Mae'r fframwaith yn nodi'r blaenoriaethau strategol sy'n gorfod cael eu cyflawni gan bob bwrdd iechyd, a chyrff eraill y GIG (lle bo'n berthnasol) dros y tair blynedd nesaf. Y blaenoriaethau strategol yw:

- Mynediad Amserol at Ofal
- Iechyd y Boblogaeth ac Atal
- Dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn
- Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl
- Iechyd Menywod
- Ansawdd a Diogelwch

Nod cyffredinol y Fframwaith Cynllunio yw sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn bwriadu gwella canlyniadau iechyd eu poblogaethau, o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Yn fwy penodol, mae'r fframwaith yn nodi'r disgwyliadau cyflawni sy'n ofynnol ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth strategol uchod. Yn ogystal, mae'n nodi nifer o gamau gweithredu galluogi sy'n cael eu gorfodi ar sail 'mabwysiadu neu gyfiawnhau'. Mae'r rhain yn ganlyniad y Rhaglenni Strategol Cenedlaethol a'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd.

Mae'r camau gweithredu galluogi yn orfodol, gan ganolbwyntio ar weithredu i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant, ac i leihau amrywiaeth rhwng sefydliadau'r GIG. Mae'r rhain yn disgyn i'r categorïau:

- Cynhyrchiant
- Iechyd y Boblogaeth ac Atal
- Iechyd Meddwl
- Mynediad Amserol at Ofal
- Dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn
- Sicrhau Gwerth am Arian
- Gwella Gwerth, Optimeiddio Canlyniadau, a Lleihau Amrywiadau
- Cynhyrchiant y Gweithlu

Bydd y rhaglenni cenedlaethol yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Yn yr amgylchedd ariannol presennol, mae'r fframwaith wedi'i ddatblygu'n ofalus i sicrhau nad yw'r gofynion yn ysgogi costau ond yn atgyfnerthu arferion gorau trwy ansawdd, effeithlonrwydd a phrofiad cleifion.

Wrth gyhoeddi'r fframwaith cynllunio hwn, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi cyfarwyddyd clir i sefydliadau weithio mewn modd cydlynol. Mae hyn yn hanfodol o ystyried yr heriau digynsail a phwysau'r galw. Wrth ymdrin â'r pwysau hwn, mae'r fframwaith cynllunio hwn yn nodi'r dull hanfodol sy'n sail i sicrhau mwy o effeithlonrwydd, lleihau gwastraff, niwed ac amrywiad a gwella anghydraddoldebau iechyd.

Fel rhan o'r agenda Gwerth a Chynaliadwyedd, mae llythyrau dyrannu ariannol ar gyfer GIG Cymru ar gyfer 2026/2027 wedi'u cyhoeddi i sefydliadau'r GIG, am y tro cyntaf fel rhan o'r Fframwaith Cynllunio, ar 19 Rhagfyr 2026 ac maent yn gyson â'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu sydd eu hangen, ac yn eu cefnogi. Mae hyn yn pwysleisio mor bwysig ydyw i gyrff gymryd y camau y mae eu hangen i gefnogi gwelliant ariannol a chyflawni yn ôl y paramedrau y cytunwyd arnynt a bennwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet. Mae'n hanfodol bod cyrff yn parhau i gymryd camau gweithredu i liniaru twf gwariant, cyflawni arbedion ac effeithlonrwydd, ochr yn ochr â chynnydd mewn cynhyrchiant. Mae'r cyd-destun hwn wedi llywio'r dull o ymdrin â'r dyraniadau a bennwyd ar gyfer cyrff y GIG. Ceir cydnabyddiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet bod dewisiadau anodd, dad-flaenoriaethu, a hyblygrwydd yn ofynnol i gyflawni'r hyn sydd ei angen.

**Pum Ffordd o Weithio – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
Wrth ddatblygu Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2026-2029, mae Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn arbennig y pum ffordd o weithio a nodir isod:

- **Hirdymor**

Mae'r IMTPs yn gynlluniau tair blynedd, ond dylent bwyso ar strategaeth 10 mlynedd a strategaeth gwasanaethau clinigol sefydliad, gan sicrhau bod golwg ar yr hirdymor. Bydd yr IMTPs tair blynedd yn ceisio nodi pa gamau fydd yn cael eu cymryd yn ystod y cyfnod nesaf o dair blynedd a fydd yn cefnogi'r cyfeiriad a'r nodau mwy hirdymor.

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cwmpasu'r cyfnod o dair blynedd rhwng 2026-2029. Mae’r hirdymor wedi cael ei ystyried wrth ei ddatblygu. Mae'r pynciau a'r gofynion allweddol i'w cynnwys yn yr IMTPs yn rhai a fydd yn parhau i gael effaith am flynyddoedd lawer i ddod, megis cyflwyno Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd, atebion arloesol a digidol, buddsoddiad ariannol a threfniadau iechyd y boblogaeth ac atal, partneriaeth, llywodraethiant a chynllunio cryfach.

Daeth y Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd yn ofynion statudol ar gyfer cyrff y GIG ym mis Ebrill 2023 ac effeithiau hirdymor cadarnhaol y dyletswyddau hyn fydd gwella diwylliant agored a gonest ymhellach, sy'n gyffredinol gysylltiedig â gofal o ansawdd da. Mae hyn yn gysylltiedig â gwella diogelwch cleifion, annog dysgu a gall weithredu fel cymhelliant i leihau digwyddiadau. Er bod Ansawdd bob amser wedi bod ar flaen y gad ym mhopeth a wnawn, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud Ansawdd a Diogelwch yn un o'i chwe blaenoriaeth allweddol.

Mae'r tueddiadau hirdymor sy'n cael sylw yng nghyfarwyddiadau'r fframwaith cynllunio hwn yn cynnwys:

- **Lleihau Gwastraff** – Mae **Comisiwn Bevan** wedi llunio adroddiad **‘What a waste!’** sy'n galw am ganolbwyntio ar y broblem gwastraff amhriodol wrth gyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a chymryd camau ar frys i fynd i’r afael â hyn. Bydd lleihau gwastraff yn gwneud cyfraniad allweddol at fynd i'r afael â'r heriau enfawr sydd o'n blaenau ac wrth ddatblygu gwasanaethau a chymorth mwy darbodus a chynaliadwy yn economaidd ac yn gymdeithasol.

- **Mae gwella iechyd y boblogaeth** yn bwysig o ran tueddiadau hirdymor hefyd. Nod y GIG pan gafodd ei sefydlu ym 1948 oedd gwneud hynny ac felly cefnogi'r economi, gan olygu y byddai'r gweithlu'n fwy ffit ac iach. Dros y 75 mlynedd diwethaf, mae amseroedd wedi newid. Mae technegau newydd, diagnosteg newydd a thriniaethau newydd wedi golygu bod pobl yn gallu cael diagnosis fwy trylwyr, a hynny’n gynharach yn eu llwybr clinigol mewn rhai achosion, gyda mwy o raglenni sgrinio ar gael. Mae sefydliadau'n edrych ar sut i reoli nid yn unig y rhaglenni sgrinio, ond hefyd beth sy'n digwydd ar ôl y diagnosis ac i sicrhau bod triniaeth ar gael mor gyflym â phosibl os oes ei hangen.

- **Mae effeithiau ar iechyd corfforol a meddyliol** yn bwysig. Er bod dros hanner y bobl yng Nghymru wedi nodi bod gofalu am eu hiechyd yn flaenoriaeth uchel iddynt, mae llawer yn profi dirywiad yn eu llesiant corfforol a meddyliol, yn ôl yr arolwg diweddaraf Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Arolwg Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru - Mawrth 2025

  Pan ofynnwyd iddynt beth yw effaith 17 o wahanol ffactorau ar eu hiechyd, nododd ymatebwyr mai'r tair prif effaith gadarnhaol oedd:
  - Mynediad at fyd natur a mannau awyr agored (74 y cant)
  - Eu lefelau gweithgarwch corfforol (63 y cant)
  - Eu hamgylchedd cartref (58 y cant)

Mewn cyferbyniad, adroddwyd mai'r tair prif effaith negyddol ar eu hiechyd oedd:

- Eu mynediad at wasanaethau gofal iechyd (42 y cant)
- Eu sefyllfa ariannol (34 y cant)
- Cyfryngau cymdeithasol (34 y cant)

Mae'r canlyniadau'n tynnu sylw at yr angen brys am weithredu i greu amgylcheddau sy'n cefnogi gwell iechyd a llesiant a'r ffordd orau i gefnogi pobl sy'n profi problemau iechyd, i gael mynediad amserol at wasanaethau. Felly, mae'n hanfodol bod sefydliadau'r GIG yn cynllunio yng nghyd-destun penderfynyddion ehangach iechyd.

Yn ogystal, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau ar effeithiau gwres ar iechyd yng Nghymru. Mae'r rhain yn dangos yr effaith y mae gwres eithafol yn ei chael ar iechyd pobl a'r angen i addasu ein cyfleusterau a'n gwasanaethau i liniaru'r risgiau hyn. Disgwylir i sefydliadau'r GIG gymryd camau gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion hyn fel rhan o'r cynlluniau datgarboneiddio ac addasu y maent yn eu datblygu. Adroddiad Blynyddol Morbidrwydd Gwres 2024

- Daeth y **ddyletswydd economaidd-gymdeithasol** i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Ei nod yw gwella'r broses o wneud penderfyniadau a helpu'r rhai sydd o dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Mae'n rhoi mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, a bydd yn adeiladu ar y gwaith da mae cyrff cyhoeddus eisoes yn ei wneud. Mae'n allweddol i ategu'r ffocws a'r cyfeiriad ar gyfer GIG Cymru pan fyddant yn datblygu eu cynlluniau.

- Roedd **technoleg** wedi ein helpu i weithio o bell drwy gydol y pandemig. Roedd yn golygu bod llawer o bobl nad oeddent mewn swyddi sy'n ymwneud â'r cyhoedd yn gallu gweithio gartref a bod modd datblygu ffyrdd newydd o weithio i gefnogi staff a chleifion. Cefnogwyd mwy o apwyntiadau rhithwir rhwng cleifion a chlinigwyr ym maes gofal sylfaenol gyda meddygon teulu ac ym maes gofal eilaidd gydag ymgynghorwyr. Roedd datblygu a chyflwyno meddalwedd Consultant Connect hefyd yn golygu bod clinigwyr yn gallu ceisio a chael cyngor gan ei gilydd i gyflymu diagnosis ac opsiynau triniaeth. Mae hyrwyddo trawsnewid ac arloesi digidol ymhellach yn nodwedd allweddol arall o gynllunio'r GIG.

- **Prif Swyddog Gwyddonol; adroddiad – 10 mlynedd +**

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023 yn cydnabod bod gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio. Erbyn 2038, amcangyfrifir y bydd bron i un o bob pum person yng Nghymru yn 70 oed neu'n hŷn. Amcangyfrifir y bydd y gymhareb dibyniaeth oherwydd henaint wedi newid o 1 i 5 i bron i 1 i 3 rhwng 2000 a 2038. Mae disgwyliad oes yn y DU wedi tyfu ar gyfradd arafach nag mewn gwledydd tebyg dros y 70 mlynedd diwethaf.

Mae'r adroddiad yn dweud y dylid rhoi ystyriaeth i liniaru sbardunau iechyd gwael er mwyn cynyddu disgwyliad oes, yn enwedig ymysg y grwpiau mwyaf difreintiedig, er mwyn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Cyngor Tystiolaeth Gwyddoniaeth (SEA)
Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy: Archwiliad o effaith amcanestynedig Cyflyrau Hirdymor a Ffactorau Risg yng Nghymru: 10 Hydref 2023: Dadleuon y Senedd

### ❖ Atal

Ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r agweddau traddodiadol ar atal o ran ffyrdd iach o fyw, megis lleihau ysmygu, gweithio tuag at bwysau iach a'i gynnal, ond hefyd yr agweddau ehangach ar atal.

Gallai dull atal ehangach fod yn gyngor neu sgrinio cynnar i gleifion, diagnosis cynnar i atal dirywiad pellach, atal claf rhag dod i niwed wrth aros am gam nesaf ei lwybr clinigol, atal datgyflyru wrth aros i gael ei drosglwyddo adref neu i leoliad newydd, atal claf rhag dioddef poen a gofid ar ddiwedd ei oes ac ati.

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd iechyd y boblogaeth ac atal, gan ei nodi fel un o'r blaenoriaethau strategol allweddol. Mae'n cefnogi'r agenda atal ehangach ac yn cydnabod ei bod yn bwysig o ran torri'r cylchoedd negyddol. Ymdrinnir ag atal salwch ac atal dirywiad salwch wrth aros am driniaeth yn y polisi 3A newydd Annog, atal ac amser paratoi ar gyfer gofal a gynlluniwyd a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023:

- Annog ymddygiadau iach
- Atal datgyflyru wrth aros
- Amser paratoi ar gyfer triniaeth ac adferiad

Mae'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol a chyfres o Ddatganiadau Ansawdd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r agenda atal ac yn cydnabod yr angen i leihau'r galw yn y dyfodol.

### Datganiadau Ansawdd

Mae'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd yn golygu dull cyson o ymdrin ag ansawdd a diogelwch i sicrhau dysgu a gwella er mwyn atal digwyddiadau rhag codi eto. Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cydnabod yr angen i sefydliadau weithio o fewn gofynion y dyletswyddau hyn a mabwysiadu'r chwe maes ansawdd a'r chwe galluogwr fel sylfeini i gynllunio eu gwasanaethau.

Bydd triniaeth a gwasanaethau o ansawdd yn helpu i atal dirywiad yng nghyflwr rhywun ac yn sicrhau ei fod yn cael y gofal gorau y tro cyntaf, gan wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael a'u defnyddio i'r perwyl gorau.

| Meysydd Ansawdd | Galluogwyr Ansawdd |
|---|---|
| • Diogel<br>• Amserol<br>• Effeithiol<br>• Effeithlon<br>• Teg<br>• Canolbwyntio ar yr unigolyn | • Arweiniad<br>• Y Gweithlu<br>• Diwylliant<br>• Gwybodaeth<br>• Dysgu, gwella ac ymchwil<br>• Dull system gyfan |

Mae pecyn cymorth asesu effaith ar gael i'r GIG i'w helpu i wneud penderfyniadau i sicrhau bod ansawdd a diogelwch yn cefnogi'r broses honno.

Mae hefyd yn hanfodol gwneud y defnydd gorau o adnoddau ar draws y system, a bydd darpariaeth gwasanaethau yn cael ei chefnogi gyda hyn drwy Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd Llywodraeth Cymru, a gadeirir gan Brif Weithredwr GIG Cymru.

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cydnabod nad oes un ateb hawdd, ac y bydd angen i gynlluniau a phenderfyniadau sicrhau cydbwysedd, gan ystyried y polisïau a'u heffeithiau ar wahanol broblemau ac atebion.

## Integreiddio

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn ceisio uno'r polisïau allweddol o fewn iechyd a fydd yn effeithio ar y GIG yng Nghymru. Mae angen adeiladu gwasanaeth di-dor integredig sy'n cael ei gydnabod gan Cymru Iachach, a ddiweddarwyd ym mis Rhagfyr 2024. Datganiad Ysgrifenedig: Adnewyddu Camau Gweithredu Cymru Iachach (4 Rhagfyr 2024).

Gall integreiddio fod ar sawl ffurf, ac mae'r rhain wedi dylanwadu ar ddatblygiad y fframwaith cynllunio hwn. Gall fod mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, gofal sylfaenol ac eilaidd a thrwy ystod ehangach o bynciau sy'n effeithio ar iechyd pobl.

- Nid dim ond ymyriadau iechyd sy’n dylanwadu ar iechyd poblogaeth Cymru. Dylanwadir arno i’r un graddau gan **benderfynyddion ehangach iechyd**, ee tai, trafnidiaeth, yr amgylchedd, addysg ac ati. Bydd angen i sefydliadau iechyd weithio gyda’u partneriaid a’u rhanddeiliaid i sicrhau bod y penderfyniadau sy’n cael eu cymryd ar draws y meysydd hyn hefyd yn creu buddion amryfal; er enghraifft, bod cysylltiadau trafnidiaeth yn sicrhau nad yw pobl yn ynysig a’u bod yn gallu cael gafael ar gyfleoedd gwaith, dysgu a hamdden, tai o ansawdd da, ac amgylcheddau sy’n gwella llesiant pobl. Wrth ddatblygu'r fframwaith cynllunio hwn, gofynnwyd i gydweithwyr polisi ar draws portffolios Llywodraeth Cymru am eu barn a chyfraniadau.

- Mae cydnabyddiaeth o **‘sefydliadau angori’** wedi dod i’r amlwg. Mae erthygl ‘Anchors in a Storm’ y Sefydliad Iechyd yn dangos pwysigrwydd sefydliadau angori wrth gefnogi a meithrin y cymunedau y maent yn rhan ohonynt. Y ddwy brif wers yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chydgynhyrchu â chymunedau, gyda'r ddwy yn rhan greiddiol o’n hegwyddorion, a dylent gael eu hadlewyrchu yn y cylch IMTP. Y Sefydliad Iechyd – Anchors in a Storm

- Mae **effaith cyflogaeth** ar iechyd unigolion yn hollbwysig. Mae effaith newidiadau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19, gwybodaeth ar gyfer ymyriadau i ddylanwadu ar iechyd a thegwch iechyd yn feysydd allweddol a all leihau anghydraddoldebau iechyd o fynd i'r afael â nhw.
  Gwaith teg, da – Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Cydweithio**

Mae cydweithio yn sail i ddatblygiad y fframwaith cynllunio hwn a'r cyfarwyddiadau i sefydliadau'r GIG.

- Trafodwyd y fframwaith cynllunio hwn yn rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol megis cydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru, Prif Weithredwyr GIG Cymru, Cyfarwyddwyr Cyllid a Chyfarwyddwyr Cynllunio a thrwy rwydweithiau gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol a'r rhai ar draws adrannau ehangach y llywodraeth lle mae pynciau'n cydgyffwrdd, megis yr economi, yr amgylchedd, addysg ac ati.

- Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn cytuno â datblygiad y fframwaith cynllunio hwn a'r cyfarwyddiadau a'r blaenoriaethau y mae'n eu gosod.

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn sicrhau bod cyrff y GIG yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cydweithredu ac yn cynyddu amlygrwydd y rhain ym meddyliau'r rhai sy'n datblygu'r cynlluniau a fydd, yn y pen draw, yn ganllaw ar gyfer darparu gwasanaethau.

- Mae'r sefydliadau iechyd yn cynhyrchu eu IMTPs. Maent yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector annibynnol, i sicrhau bod eu cynlluniau iechyd yn cyd-fynd â Chynlluniau Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Mae'r **Datblygiad Clwstwr Cyflym** yn sicrhau cydweithrediad a chysylltiad â'r partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Symud tuag at alluogi diagnosis a thriniaeth yn y gymuned i sicrhau bod cleifion yn gallu cael gofal yn agosach at adref. Rhaglen Strategol - Gofal Sylfaenol Un  Trosolwg o Ddatblygiad Clwstwr Cyflym - Gofal Sylfaenol Un

- Mae'r pynciau a'r gofynion allweddol yn galw am waith ar y cyd a thrafodaethau gyda sefydliadau partner, rhanddeiliaid a'r cyhoedd, i sicrhau bod penderfyniadau'n berthnasol ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

- Yn 2025, penodwyd Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant y GIG gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i roi sicrwydd i Ysgrifennydd y Cabinet ar effeithiolrwydd y trefniadau presennol i wella perfformiad a chynhyrchiant yn GIG Cymru ac arsylwadau ar sut i gryfhau'r trefniadau presennol ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, ffocws cryfach ar gynllunio a chyflawni rhanbarthol. Mae'r Fframwaith Cynllunio yn cydnabod y gwaith hwn.

[Datganiad Ysgrifenedig: Adroddiad gan y Grŵp Cynghori Gweinidogol Allanol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru (29 Ebrill 2025) | LLYW.CYMRU]

**Cymryd rhan**

Mae cyrff GIG Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol yn ymwybodol o broses cylch cynllunio IMTP. Y disgwyl yw y bydd sefydliadau'n gallu cynnwys cydweithwyr i raddau mwy wrth ddatblygu eu cynlluniau.

Mae'n bwysig bod sefydliadau'n deall 'beth sy'n bwysig' i'r bobl y mae'r pynciau a amlygir yn y fframwaith cynllunio hwn yn effeithio arnynt a sut y gallent fod yn rhan o ddarparu gwasanaethau sy'n lliniaru'r effeithiau.

Mae Arweinyddiaeth Dosturiol yn allweddol i'r gofyniad i ganolbwyntio ar "sut" mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae'n cydnabod bod arweinyddiaeth yn agwedd hollbwysig i sicrhau bod disgwyliadau ac uchelgeisiau'n cael eu cyflawni. Bydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn arwain ar y gwaith hwn ac mae ethos Arweinyddiaeth Dosturiol wedi dylanwadu ar ddatblygiad y fframwaith cynllunio hwn. [Arweinyddiaeth - AaGIC.]

**Effaith**

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cyflawni'r ddyletswydd i Weinidogion Cymru roi 'Cyfarwyddiadau' i'r GIG yng Nghymru o dan Ddeddf GIG Cymru 2006 a ddiwygiwyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn darparu'r cyd-destun y mae byrddau iechyd a chyrff eraill y GIG yn ei ddisgwyl ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu yn ystod 2026-2029.

Mae'r fframwaith cynllunio hwn, a'r IMTPs (cynlluniau) sy'n deillio ohono yn ofynion statudol. Bydd y fframwaith cynllunio yn rhoi sicrwydd a chyfeiriad ynghylch yr hyn sydd ei angen i gadw gwasanaethau'n gydgysylltiedig ac i gefnogi cleifion a staff dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cyfarwyddiadau hyn gan Ysgrifennydd y Cabinet yn tynnu sylw at yr angen am weithgareddau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac i sicrhau nad yw menywod, a rhannau eraill o'r cymunedau yng Nghymru, dan anfantais o ran cael mynediad at ofal a thriniaeth. Mae angen i sefydliadau'r GIG barhau i symud ymlaen â'u cynlluniau gwrth-hiliaeth, eu defnydd o'r Gymraeg a'u cynlluniau datgarboneiddio ac addasu er mwyn sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn gweithio tuag at amgylchedd sero net erbyn 2030, yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r fframwaith cynllunio hwn wedi'i gyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a bydd yn darparu negeseuon clir i'r GIG yng Nghymru a'i randdeiliaid ynghylch ffactorau strategol a gweithredol allweddol. Bydd yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a fydd yn cael eu cynhyrchu, i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn.

I Brif Weithredwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ar draws GIG Cymru, mae'r fframwaith cynllunio yn ddogfen o bwys. Fe'i cyhoeddir bob blwyddyn yn yr hydref, ac mae'n llywio

datblygiad IMTP y sefydliad. Mae'n darparu mecanwaith i'r Ysgrifennydd Cabinet gyfleu gofynion a blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer y cyfnod sydd i ddod.

**Costau ac arbedion**

Ni aeth y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar yn Llywodraeth Cymru i unrhyw gost ariannol wrth gwmpasu a datblygu'r fframwaith cynllunio hwn.

Mae'r fframwaith cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG ddatblygu cynlluniau 3 blynedd sy'n mantoli'r gyllideb. Am y tro cyntaf eleni, cynhwyswyd manylion dyraniad ariannol y GIG yn y fframwaith cynllunio.

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cynnwys elfennau i sicrhau bod y GIG yn nodi arbedion cost. Mae hyn yn cynnwys cael ei ategu gan **Ofal Iechyd Seiliedig ar Werth (VbH)** ac egwyddorion a llwybrau darbodus, sy'n cyd-fynd yn llawn â'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol (NCF). Mae'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd hefyd yn gweithio'n agos i gynghori'r GIG yng Nghymru ar sut i sicrhau bod penderfyniadau darbodus yn cael eu gwneud. Yn ogystal, aeth y fframwaith ymhellach eleni gan nodi nifer o gamau galluogi yr ydym yn eu gwneud yn orfodol ar sail “mabwysiadu neu gyfiawnhau”. Mae gan bob un ohonynt sylfaen dystiolaeth i ddangos effeithlonrwydd a/neu ganlyniadau gwell, a hynny heb arwain at gostau ychwanegol.

Mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu heriau digynsail o ran ei sefyllfa ariannol. Datblygwyd y fframwaith hwn gyda golwg ar y pwysau yn y system gyfan.

Mae'r dulliau pwysig hyn yn darparu cyfleoedd i ddangos bod sefydliadau'n cyflawni'r safonau a'r gwerthoedd gofynnol ar draws y system iechyd a gofal, gyda llawer ohonynt yn opsiynau dim cost/arbed costau mewn termau ariannol. Gwerth mewn Iechyd

**Dull gweithredu**

Nid yw deddfwriaeth yn cael ei chynnig wrth ddatblygu'r fframwaith cynllunio hwn, felly nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol.

Cyhoeddwyd y fframwaith cynllunio hwn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2025 i ddarparu cyfarwyddiadau i GIG Cymru ar y ffordd y mae'n rhaid iddo gynllunio ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn atgyfnerthu'r cyfrifoldeb statudol sydd gan fyrddau iechyd y GIG ac ymddiriedolaethau'r GIG i gynhyrchu cynlluniau tair blynedd cytbwys. Drwy ddiffinio blaenoriaethau, mae'r cyfarwyddiadau hyn yn nodi'r dull trawsnewidiol o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy gyda chanlyniadau da i bobl Cymru o fewn y cyfyngiadau ariannol a gweithlu digynsail yn dilyn y pandemig COVID-19 ac ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Y fframwaith cynllunio yw'r dull gweithredu ar gyfer cyhoeddi'r “Cyfarwyddiadau” gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r GIG yng Nghymru. Mae’n ofyniad statudol i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ymateb i'r cyfarwyddiadau hynny a chyflwyno eu cynlluniau. Mae Awdurdodau Iechyd Arbennig a sefydliadau cenedlaethol eraill yn dilyn cylch gwaith y fframwaith cynllunio drwy arfer da.

Trwy'r fframwaith cynllunio 2026-2029, mae cyrff y GIG yn cael eu “cyfarwyddo” i gynhyrchu cynlluniau tair blynedd sy'n cael eu henwi'n Gynlluniau Tymor Canolig Integredig neu IMTP. Mae'r ddogfen yn dwyn ynghyd ymrwymiadau a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan ddarparu'r cyd-destun a'r dirwedd amgylcheddol y dylid datblygu Cynlluniau'r GIG arno. Rhaid i'r cynlluniau hyn nodi sut y bydd sefydliadau'r GIG yn gwella canlyniadau iechyd y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu, o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mae Asesiadau Effaith Integredig Unigol (IIAs) wedi'u cynnal ar gyfer y polisïau, y rhaglenni, y ddeddfwriaeth a'r mecanweithiau y mae'r fframwaith cynllunio hwn yn eu dwyn ynghyd. Mae'r IIAs hyn yn asesu sut y bydd gwahanol weithgareddau'r GIG sy'n darparu gwasanaethau iechyd yn effeithio ar bobl Cymru.

Mae'r fframwaith cynllunio yn effeithio'n anuniongyrchol ar bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru (dros 3 miliwn o bobl), gan roi ffocws i'r gwasanaeth iechyd leihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau iechyd o fewn y paramedrau heriol presennol lle mae gweithlu llai, a llai o gyllid, ar gael. Bydd y cynlluniau a ddatblygwyd gan gyrff y GIG yn nodi sut y bydd pobl y mae’r sefydliad yn gyfrifol amdanynt yn derbyn gofal a sut y bydd gwasanaethau'n cael eu rheoli.

Wrth ddatblygu'r Fframwaith Cynllunio, bydd Ysgrifennydd y Cabinet wedi ystyried ac wedi bod yn ymwybodol o'r nifer o unigolion a grwpiau a fydd wedi cwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet ac wedi ysgrifennu ato yn ystod y flwyddyn, a bydd pob un ohonynt yn dylanwadu ar Ysgrifennydd y Cabinet wrth iddo wneud ei benderfyniad ar beth i'w gynnwys fel blaenoriaethau i'r gwasanaeth wrth iddo lunio ei gynlluniau.

Yn aml, bydd gan sefydliadau gynrychiolwyr a grwpiau cleifion sy'n rhoi adborth ar ofal a thriniaeth y maent wedi'u derbyn ac yn darparu gwybodaeth a chynigion defnyddiol ar gyfer gwelliannau. Gellir bwydo'r rhain i'r cynlluniau y mae sefydliadau'n eu paratoi i ymateb i’r adborth hwnnw.

Mae llawer o'r bobl sy'n gweithio yn sefydliadau'r GIG, yn datblygu cynlluniau ac yn darparu gwasanaethau, o Brif Weithredwyr i staff gweithredol mewn ysbytai i weithwyr yn y fferyllfeydd cymunedol, meddygfeydd teulu ac ati, yn cael cyfleoedd i gyfrannu at y cynlluniau sy'n cael eu datblygu drwy'r prosesau cynllunio o'r gwaelod i fyny y mae sefydliadau'n eu gweithredu. Mae'r rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam yn un ffordd y mae cydweithwyr gofal sylfaenol yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio a threfnu

gwasanaethau sydd ar gael i'w cleientiaid. [Pecyn Cymorth Datblygu Clwstwr Cyflym - Gofal Sylfaenol Un]

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cefnogi dull gweithredu cyson ac yn nodi meysydd blaenoriaeth sy'n cael sylw ar draws y GIG. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi ei chwe blaenoriaeth strategol, sef:

- Mynediad Amserol at Ofal
- Iechyd y Boblogaeth ac Atal
- Dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn
- Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl
- Iechyd Menywod
- Ansawdd a Diogelwch

Y disgwyl yw y bydd cyrff y GIG yn cydweithio a chynnwys eu rhanddeiliaid eu hunain, gan gynnwys pobl Cymru sy'n derbyn gofal iechyd, wrth ddatblygu'r fframwaith cynllunio hwn ac ymateb iddo. Mae hyn yn cynnwys plant a'u cynrychiolwyr; pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, siaradwyr Cymraeg a grwpiau Cymraeg arbenigol; yn ogystal â phobl eraill y gallai'r cynigion effeithio arnynt.

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Dylai'r fframwaith cynllunio hwn ar gyfer 2026-2029 gael effaith gadarnhaol ar bobl ledled Cymru drwy wella mynediad at wasanaethau, gwella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Ategir y fframwaith cynllunio hwn gan weledigaeth hirdymor "Cymru Iachach", y cynllun strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, i ganolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac atal salwch, gan gynnwys y camau gweithredu wedi'u diweddaru a gyhoeddwyd yn 2024. Mae'r fframwaith cynllunio yn helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cymru Iachach o ran ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi IMTPs tair blynedd i gyflawni'r nodau.

[Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU]
[Cymru Iachach - Adfywio gweithredu 2024-25]

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ofal iechyd drwy nodi blaenoriaethau i sefydliadau'r GIG, gan bwysleisio hefyd y gofyniad i wneud y defnydd gorau o adnoddau. Pe na bai Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad a blaenoriaethau, gallai hyn arwain at ddull anghyson a fyddai'n ehangu anghydraddoldebau iechyd. Amlygir menywod, plant a rhannau eraill o'r gymuned yng Nghymru i sicrhau bod ansawdd a lefelau gwasanaeth yn cael sylw, gydag effeithiau cadarnhaol. Ar ben hynny, mae'n hollbwysig cael arweiniad yn yr amgylchedd presennol o gyfyngiadau ariannol lle mae'r holl ddarpariaeth yn cael ei hystyried a'i hadolygu'n ofalus.

Mae gwelliannau i ffyrdd o weithio cyrff y GIG a'r ffocws ar feysydd blaenoriaeth sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n cynnig manteision cadarnhaol, yn enwedig i grwpiau gwarchodedig, yn esgor ar effeithiau cadarnhaol sylweddol i bobl Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- effaith andwyol amseroedd aros hir, ac mae'r fframwaith hwn wedi cael ei ddylanwadu gan fentrau megis y polisi 3A Annog, atal ac amser paratoi ar gyfer gofal a gynlluniwyd sy'n ceisio Annog ymddygiadau iach, Atal datgyflyru tra bod cleifion yn aros ac Amser Paratoi cleifion ar gyfer triniaeth ac adferiad a'r Flaenoriaeth Weinidogol ar gyfer gwelliannau i Ofal a Gynlluniwyd. Cyn diwedd mis Mawrth 2026 y nod yw lleihau'r niferoedd ar restrau aros o tua 200,000 o bobl. Bydd hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar y rhai sydd wedi bod yn aros am ddiagnosis neu driniaeth gan sicrhau bod iechyd pobl yn cael ei flaenoriaethu.

- Bydd y nod i wella mynediad a darpariaeth gofal sylfaenol a chymunedol i bobl mor agos i'r cartref â phosibl yn cael effaith gadarnhaol ar bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd, ond yn enwedig grwpiau agored i niwed. Bydd annog diagnosteg ar lefel gymunedol yn rhan o hyn. Dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn yw un o'r chwe blaenoriaeth strategol yn y fframwaith cynllunio. Nid yw'n bolisi cyhoeddedig annibynnol ond yn hytrach yn egwyddor arweiniol sydd wedi'i hymgorffori yn ymagwedd Llywodraeth Cymru at gynllunio gofal yn nes at y gymuned. Mae cael gofal yn agosach at y cartref hefyd yn golygu mynediad cyflymach at ddiagnosteg well, gan arwain at ganlyniadau iechyd gwell. Ar ben hynny, bydd plant yn cael eu cefnogi'n gadarnhaol drwy'r contractau GMS lle bydd gofyniad i ddarparu sgrinio iechyd i blant.

- Bydd nodi iechyd meddwl fel blaenoriaeth weinidogol yn cael effaith gadarnhaol ar oedolion a phlant. Cydnabuwyd bod plant, yn arbennig, wedi dioddef o effaith y cyfnod clo a'r cyfyngiadau a ddaeth yn sgil Covid-19. Adroddiad **Young people's mental health deteriorated at greater rate during the pandemic**. Arweiniwyd yr ymchwil gan yr **Athro Willem Kuyken** yn **Adran Seiciatreg** Prifysgol Rhydychen. Roedd pobl ifanc a aeth trwy'r pandemig yn fwy tebygol o brofi mwy o iselder, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a llesiant meddyliol gwaeth yn gyffredinol.

    - Er bod iechyd meddwl wedi dirywio yn y ddau grŵp dros amser, roedd iechyd meddwl y rhai yn y pandemig wedi gwaethygu:
      - Cynyddodd achosion o iselder 8.5% yn y rhai a oedd yn mynd drwy'r pandemig o gymharu â 0.3% yn y grŵp cyn y pandemig.
      - Cynyddodd nifer yr achosion o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol uchel/uchel iawn 7.9% yng ngharfan y pandemig o gymharu â 3.5% yn y garfan cyn y pandemig.
      - Cynyddodd nifer yr achosion o anawsterau iechyd meddwl posibl/tebygol 12.8% yng ngrŵp y pandemig o gymharu â 4.5% yn y grŵp cyn y pandemig

- gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, sy'n ceisio lleihau gwastraff, niwed ac amrywiad mewn gofal. Mae ei egwyddorion tegwch a lleihau amrywiad diangen yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol drwy leihau anghydraddoldebau iechyd.

- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn ôl byrddau iechyd lleol. Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn cefnogi gwella ansawdd a diogelwch cleifion sy'n cael eu

trin ac mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn gofyn am ddull gweithredu agored gan holl Fyrddau Iechyd lleol y GIG ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

- Adroddiad Comisiwn Bevan – What a Waste! – i ganolbwyntio ar y broblem o wastraff amhriodol wrth ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a gweithredu ar frys i fynd i'r afael ag ef. **Hafan - Comisiwn Bevan** **Adroddiad Terfynol What a Waste - Comisiwn Bevan**

- Trawsnewid digidol drwy leihau teithio a bydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig o ran cael mynediad at wasanaethau arbenigol yn rhithwir.

- Mae'r strategaeth arloesi newydd – Cymru'n Arloesi: Creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach – yn bwriadu darparu amgylchedd mwy cydlynol ar gyfer iechyd ac arloesi. Creu effaith gadarnhaol drwy'r genhadaeth i fod yn ecosystem arloesi gydlynol lle mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio â diwydiant, y byd academaidd a'r trydydd sector i sicrhau mwy o werth ac effaith i ddinasyddion, yr economi a'r amgylchedd. **Cymru'n Arloesi: Creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach**

Bydd y fframwaith cynllunio hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n gweithio yn GIG Cymru. Roedd bron i 100,000 o bobl cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan GIG Cymru ar 31 Mawrth 2025. Mae rhoi arweiniad i gyrff y GIG i'w galluogi i gynllunio yn y tymor canolig yn rhoi diogelwch ac arweiniad i bob rhan o GIG Cymru.

Yn ystod hydref 2023, cyhoeddodd Prif Gynghorydd Gwyddonol Iechyd Llywodraeth Cymru adroddiad "***Y GIG mewn 10+ mlynedd: Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru***" gan ddisgrifio'r heriau y mae'r GIG yng Nghymru yn debygol o'u hwynebu yn ystod y 10 i 25 mlynedd nesaf. Roedd yr adroddiad yn glir y bydd yr heriau demograffig, economaidd, a chymdeithasol presennol sy'n wynebu ein system iechyd a gofal yng Nghymru yn parhau i roi pwysau nad oes modd eu cynnal ar ein gwasanaethau.

Mewn ymateb i'r dystiolaeth a nodir yn yr adroddiad hwn, cyhoeddodd y cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd y byddai'n adnewyddu'r camau gweithredu yng nghynllun Cymru Iachach, sef ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal.

Mae'r camau gweithredu newydd i'w gweld yma:
**Datganiad Ysgrifenedig: Adnewyddu Camau Gweithredu Cymru Iachach 4 Rhagfyr 2024**.

Mae'r cyfarwyddiadau yn y fframwaith cynllunio hwn yn ystyried yr anghydraddoldebau iechyd a nodwyd a'r trywydd ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.

Mae gan holl sefydliadau'r GIG ran i'w chwarae i sicrhau, drwy fabwysiadu arferion gorau a chefnogaeth i'w staff eu hunain eu bod yn helpu i ddarparu gwell gwasanaethau iechyd a gofal i'w poblogaethau, bod rhaid i sefydliadau barhau i ddatblygu eu cynlluniau Gwrth-hiliaeth, cefnogaeth i'r Gymraeg, yn ogystal â mabwysiadu meini prawf allweddol i gofleidio gofynion newid yn yr hinsawdd a'r hyn sydd ei angen i gefnogi datblygiad economaidd.

Mae mabwysiadu'r safonau mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i sbarduno a chefnogi ein heconomi yng Nghymru. **Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau**

Mae angen i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gynllunio i ddiwallu anghenion eu poblogaethau priodol a rhaid iddynt wneud hynny waeth beth fo'u hoedran, hil, crefydd, rhyw, a hunaniaeth rywiol, ac ati. Mae angen i sefydliadau sicrhau bod pobl yn cael mynediad cyfartal at wybodaeth a chefnogaeth.

**8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cael ei ategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ddarparu'r sylfeini cyffredinol sydd eu hangen, drwy'r pum ffordd o weithio (hirdymor, atal, integreiddio, cynnwys a chydweithio). Mae hefyd yn cael ei ategu gan 'Cymru Iachach'.

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn cynorthwyo cyrff y GIG i gyfrannu'n gadarnhaol at y nodau a'r amcanion llesiant. Mae'n nodi eu bod yn bwysig i Weinidogion ac yn ofynnol gan y GIG, gan roi neges gyson i holl gyrff y GIG ar y lefel uchaf.

Dylai'r fframwaith cynllunio hwn arwain at gyfraniad cadarnhaol at yr holl nodau:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn arf allweddol i sicrhau Cymru iachach a mwy cyfartal ac yn cyfarwyddo'r gwaith o gynllunio gwasanaethau'r GIG a ddylai, yn ei dro, arwain at gyfraniad cadarnhaol at y nodau hyn. Dylai gwasanaethau'r GIG effeithio'n gadarnhaol ar y nodau sy'n weddill mewn modd anuniongyrchol, er enghraifft, mae poblogaeth iach yn arwain at Gymru lewyrchus a chydnerth, ac mae dylanwad ffocws cynyddol ar ofal sylfaenol lleol yn esgor ar gymunedau cydlynus.

Mae yna effeithiau cadarnhaol ar gyfer siaradwyr Cymraeg drwy ddull gweithredu cyson a dylanwad y Strategaeth ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, *Mwy na geiriau*.
**Fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-2019:**

Mae'r Gymraeg yn bwysig wrth ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol. I lawer o bobl, mae gallu cael gafael ar wybodaeth neu ddisgrifio eu symptomau a siarad â gweithwyr

proffesiynol yn yr iaith o'u dewis yn allweddol i gael y driniaeth a'r gofal cywir. Mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg (a reoleiddir gan Gomisiynydd y Gymraeg), sy'n set o ofynion cyfreithiol sydd â'r nod o wella gwasanaethau dwyieithog.

**8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Mae'r fframwaith cynllunio hwn yn darparu'r “Cyfeiriad” ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs) tair blynedd cyrff y GIG. Gwneir y gwaith monitro a gwerthuso drwy adroddiadau gan gyrff y GIG i Lywodraeth Cymru. Mae nifer o fecanweithiau:

- Bydd cyrff y GIG yn cyflwyno eu cynlluniau i’w hasesu ar gyfer cyfnod cyflawni 2026-2029. Bydd cydweithwyr cynllunio, polisi, rhaglen, cyflawni, y gweithlu a chyllid yn rhoi adborth ar y cynlluniau a, thrwy hyn, mae gwerth y fframwaith cynllunio hwn, a'r aliniad ag ef, yn cael ei asesu. Mae'r broses asesu yn rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Cabinet perthnasol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a yw'r cynllun a gyflwynir yn cael ei gymeradwyo.
- Mae Cyfarwyddwyr y GIG yn adrodd i grŵp eang o swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cydweithwyr cyflawni, polisi a chynllunio, gyda data ansoddol a meintiol sy'n rhoi cyfle i asesu a yw'r fframwaith cynllunio hwn wedi cefnogi'r sefydliadau i gadw at y trywydd iawn gyda'u cynlluniau.
- Mae'r Fframwaith Cynllunio yn cefnogi nifer o fetrigau allweddol a nifer o gamau galluogi. Mae'r rhain yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn a bydd cynnydd yn erbyn y rhain yn dangos llwyddiant cynllun y sefydliad.
- Cyfarfodydd cynnydd bob chwe mis rhwng uwch arweinwyr Llywodraeth Cymru a chyrff y GIG.
- Cyfarfodydd bob chwe mis rhwng y Ysgrifennydd y Cabinet a Chadeirydd Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

`